# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 23.07.12

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd W. Tudor Owen (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Ann Williams, Elfed Williams

**Hefyd yn bresennol:** Geraint B. Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan M. Williams (Rheolwr Trwyddedu) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**1. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – ACADEMI, ADEILAD ROBINSONS, FFORDD DEINIOL, BANGOR**

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Ar ran Academi, Adeilad Robinsons, Ffordd Deiniol, Bangor:** Mrs Cheryl Wright (Ymgeisydd) a'r Mri Ashley James a Nick Dickinson

**Ar ran yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru)

**Ar ran y gwrthwynebwyr:** Mrs Arfona Davies a Ms Catherine Head

**Ar ran Cyngor Dinas Bangor:** Y Cynghorydd Keith Marshall

**Aelodau Lleol:** Y Cynghorwyr June Marshall a Mair Rowlands

Cyn dechrau ystyried y cais, nododd y Rheolwr Trwyddedu y gohiriwyd y cais yn yr is-bwyllgor a gynhaliwyd ar 23 Ebrill 2012 oherwydd y canfuwyd nad oedd yr ymgeisydd wedi cysylltu â'r Gwasanaeth Tân ac Achub na'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ar y cais. Yn dilyn y cyfarfod hwnnw fe gymerodd yr ymgeisydd y camau priodol ac erbyn hyn 'roedd sylwadau'r gwasanaethau hynny i law.

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais ar ran Academi, Adeilad Robinsons, Ffordd Deiniol, Bangor am drwydded eiddo i ymestyn yr oriau y caniateir gweithgareddau trwyddedig a'r oriau mae'r eiddo'n agored i'r cyhoedd. Bwriedir hefyd agor ar y Sul. Nododd bod y gweithgareddau trwyddedig yn cynnwys gwerthiant alcohol, cerddoriaeth fyw, cerddoriaeth wedi ei recordio, darparu lluniaeth hwyr ynghyd â gweithgareddau fel dangos ffilmiau a dramau. 'Roedd yr oriau y gofynnir amdanynt ar gyfer y gweithgareddau trwyddedig rhwng 10.30 a 02.00 dydd Llun i ddydd Iau, rhwng 10.30 a 03.00 dyddiau Gwener a Sadwrn a rhwng 11.30 a 01.00 ar ddydd Sul gyda'r oriau'n agored i'r cyhoedd rhwng 10.30 a 02.30 dydd Llun i ddydd Iau, rhwng 10.30 a 03.30 dyddiau Gwener a Sadwrn a rhwng 10.30 a 01.30 ar ddydd Sul.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, nid oedd gwrthwynebiad i'r cais gan yr Heddlu, Gwasanaeth Tân ac Achub (gydag amodau) na'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd (gydag amodau). Nid oedd sylwadau gan y Gwasanaeth Cynllunio. 'Roedd Cyngor Dinas Bangor a'r aelodau lleol yn gwrthwynebu'r cais a derbyniwyd llythyrau gan rhai o'r trigolion cyfagos hefyd yn gwrthwynebu'r cais.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

ii. Gwahoddwyd aelodau'r Is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd

iii. Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

iv. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

v. Cafodd yr ymgeisydd a deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos

Wrth gefnogi'r cais, hysbysodd cyfreithiwr ar ran yr ymgeisydd, pan gyflwynwyd cais am drwydded dan yr hen ddeddf trwyddedu 'roedd yn angenrheidiol yr adeg hynny i nodi'r nifer y caniateid mewn unrhyw sefydliad ond erbyn hyn mae'r drefn wedi newid ychydig. 'Roedd yn cytuno gyda sylwadau'r Gwasanaeth Tân ac Achub y dylid cyfyngu ar y nifer y caniateir yn yr adeilad i ddim mwy na 700. Nododd bod yr adeilad hwn wedi bod yn weithredol ar gyfer myfyrwyr ers peth amser bellach ac 'roedd y mwyafrif o'r myfyrwyr o'r farn y dylid ymestyn yr oriau ar gyfer y gwahanol weithgareddau trwyddedig a ganiateir yno. Hyn felly yw sail y cais hwn a bod angen yr hyblygrwydd i ddarparu adloniant ar adegau priodol. Ni ragwelai y bydd angen cynnal y gwahanol weithgareddau bob dydd o'r wythnos – efallai y bydd eu cynnal am bedwar diwrnod o'r wythnos yn ddigonol. Cadarnhaodd bod y ddarpariaeth a geir yn yr adeilad o'r safon uchaf. Cydnabu bod yna broblemau gydag ymddygiad ar y stryd gerllaw ond nid oes digon o dystiolaeth i brofi bod hyn yn cael ei achosi gan ddefnyddwyr yr Academi. Nododd na chwaraewyd cerddoriaeth fyw yn yr adeilad oherwydd 'roedd angen sicrwydd gan yr awdurdodau perthnasol y cydymffurfir â'r lefelau sŵn a.y. Yn ystod y cyfnod ers yr agorwyd yr eiddo, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau tros dro yn yr adeilad hyd 03.00 ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau iddynt. Tynnodd sylw nad oes gan yr heddlu wrthwynebiad i'r cais a bod rhai sefydliadau eraill cyffelyb ym Mangor gyda'r un oriau y gofynnir amdanynt.
.
Gwahoddwyd yr ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr ac adroddodd Mr Ian Williams Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu nad oes gan yr heddlu dystiolaeth i wrthwynebu'r cais ar sail yr amcanion trwyddedu, gan mai pump digwyddiad yn unig a gofnodwyd yn gysylltiedig â'r eiddo ers iddo agor. 'Roedd yn fodlon gyda rheolaeth yr eiddo a nododd bod yna gydweithio da rhwng yr heddlu a'r ymgeisydd. Cyfeiriodd at y digwyddiadau tros dro a gynhaliwyd yn yr eiddo hyd 03.00 ac ni chafwyd unrhyw broblemau yn deillio ohonynt.

Manteisiodd y gwrthwynebwyr oedd yn bresennol ar y cyfle i ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr gan nodi'n benodol y pwyntiau canlynol –

- Bod rhai o'r trigolion a wrthwynebodd y cais yn wreiddiol wedi gadael yr ardal oherwydd y problemau a achosir o'r eiddo hwn.
- Y byddai ymestyn yr oriau yn debygol o ychwanegu at yr ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn yr ardal hon ac felly'n amharu ar fwynderau'r trigolion cyfagos.
- Y byddai myfyrwyr swnllyd yn gadael yr eiddo yn hwyr y nos yn debygol o greu niwsans cyhoeddus.
- Bod celfi'n cael eu lladrata o rai o erddi'r tai gerllaw yn hwyr y nos.
- Y dylid glynu at yr oriau ar y drwydded gyfredol.
- Y dylid cyfyngu ar yr amser hwyraf i gael mynediad i'r adeilad.

Mewn ymateb i rhai o'r sylwadau uchod, hysbysodd cyfreithiwr ar ran yr ymgeisydd bod gan yr eiddo reolau caeth ac ni chaniateir mynediad i'r eiddo i bersonau meddw. Nododd bod yr eiddo yn cael ei redeg yn dda ac ni welai unrhyw reswm i gyfyngu ar yr amser hwyraf i gael mynediad i'r adeilad. Cadarnhaodd mai o fewn yr adeilad yn unig y bwriedir gwerthu'r alcohol.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

**PENDERFYNWYD caniatau trwydded eiddo ar gyfer Academi, Adeilad Robinson, Ffordd Deiniol, Bangor fel a ganlyn -**
**a) Caniatau dramau (paragraff A); Ffilmiau (paragraff B); Cerddoriaeth fyw (paragraff E); Cerddoriaeth wedi ei recordio (paragraff F); Perfformiadau dawns (paragraff G); Unrhyw weithgaredd sy'n debyg i'r hyn sy'n disgyn o fewn paragraffau E, F neu G; Cyfleusterau ar gyfer chwarae cerddoriaeth (paragraff I); Cyfleusterau ar gyfer dawnsio (paragraff J); Cyfleusterau ar gyfer adloniant yn debyg i ddisgrifiad yr hyn sy'n disgyn o fewn paragraffau I neu J; Lluniaeth hwyr (paragraff L); Cyflenwi alcohol (paragraff M) o fewn yr adeilad yn unig, fel a ganlyn –**

- **Dydd Llun i ddydd Iau – rhwng 10.30 a 02.00**
- **Dyddiau Gwener a Sadwrn – rhwng 10.30 a 03.00**
- **Dydd Sul – rhwng 11.30 a 01.00**

**b) Caniatau i'r eiddo fod yn agored i'r cyhoedd (paragraff O) fel a ganlyn –**

- **Dydd Llun i ddydd Iau – rhwng 10.30 a 02.30**
- **Dyddiau Gwener a Sadwrn – rhwng 10.30 a 03.30**
- **Dydd Sul – rhwng 10.30 a 01.30**

**c) Bod y camau a ddisgrifir ym mharagraff P o'r cais i'w cynnwys fel amodau ar y drwydded.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

**2. CAIS I ADOLYGU TRWYDDED EIDDO – CAERNARFON BURGER & KEBAB HOUSE, 19, Y BONT BRIDD, CAERNARFON**

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod</u>:**

**Ymgeisydd:** Rhingyll Bill Coppack (Heddlu Gogledd Cymru)

**Eraill ar ran yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru)

**Ar ran Caernarfon Burger & Kebab House:** Mr Mustapha Sari (Deilydd y drwydded) a Mr I. Sari

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais gan Heddlu Gogledd Cymru i adolygu trwydded Caernarfon Burger & Kebab House, 19 Y Bont Bridd, Caernarfon oherwydd yr amlygwyd achos penodol nad oedd trefniadau teledu cylch cyfyng, sy'n amodol ar drwydded yr eiddo, yn ddigonol ar gyfer sicrhau cydymffurfiad ag amcanion Deddf Trwyddedu 2003. Maent yn gofyn am gael diddymu'r amod presennol o'r drwydded a gosod amod diwygiedig yn ei le mewn perthynas â defnydd teledu cylch cyfyng ar yr eiddo. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ar y cais oddigerth llythyr gan gyfreithiwr sy'n gweithredu ar ran deilydd y drwydded.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

ii. Gwahoddwyd aelodau'r is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd

iii. Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

iv. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

v. Cafodd yr ymgeisydd a deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu Hachos

Ar ran yr heddlu, hysbysodd y Rhingyll Bill Coppack bod angen i sefydliadau o'r fath sy'n agored yn hwyr y nos gael system teledu cylch cyfyng ddigidol. Cyfeiriodd at ddigwyddiad yn yr eiddo ar 22 Ebrill 2012 pan ymosodwyd ar berson ifanc a'i anafu. Yn dilyn y digwyddiad, ymwelodd yr heddlu a'r eiddo ar 24 Ebrill 2012 pryd y canfuwyd bod system teledu cylch cyfyng yr adeilad yn ail-recordio tros ei hun bob 12 awr ac felly nid oedd tystiolaeth o'r ymosodiad ar gael. 'Roedd o'r farn nad oedd yr amod gyfredol ar y drwydded yn ddigonol a bod y system teledu cylch cyfyng gyfredol yn annigonol a gofynnodd am osod amod ddiwygiedig yn ei le. Ymwelwyd â'r eiddo'n ddiweddar a chanfuwyd bod y system teledu cylch cyfyng ddigidol yn weithredol a'i fod yn cyd-fynd â'r hyn y gofynnwyd amdano.

Hysbysodd deilydd y drwydded ei fod yn derbyn argymhellion yr heddlu a chadarnhaodd bod y system teledu cylch cyfyng ddigidol erbyn hyn yn weithredol yn yr eiddo.

Gan bod y partion perthnasol eisoes wedi dod i gytundeb ar y cais, nid oedd gan yr is-bwyllgor wrthwynebiad i addasu amodau'r drwydded fel a nodir isod.

**PENDERFYNWYD addasu amodau'r drwydded drwy ychwanegu'r amodau canlynol -**
**a) Gosod system teledu cylch cyfyng ddigidol a dylai'r heddlu a'r awdurdod lleol fod yn fodlon gyda sut mae'n gweithio a byddent yn monitro tu fewn a thu allan i'r adeilad.**
**b) Y dylai goleuadau'r lleoliad fod o ansawdd da ac yn ddigon cryf i allu adnabod unigolion sy'n yr adeilad.**
**c) Bod y system teledu cylch cyfyng yn recordio ac yn cadw delweddau lliw o'r holl adegau mae aelodau'r cyhoedd yn yr adeilad am o leiaf 31 diwrnod.**
**ch) Pan fydd yr heddlu a'r awdurdod lleol yn cyflwyno cais am ddelweddau, bydd y delweddau'n cael eu rhoddi iddynt yn syth a bydd gan y busnes feddalwedd ddigonol i allu cydymffurfio â'r amod hwn. Os na fydd y busnes yn gallu cydymffurfio â chais dan yr amod hwn, yna mae'n rhaid i'r rhai sy'n gyfrifol am yr adeilad fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd yr adolygir y drwydded.**
**d) Bydd yn ofynnol bod o leiaf un aelod o staff hyfforddedig ar gael i lawrlwytho tystiolaeth ar gais yr heddlu neu swyddog awdurdodedig pan fyddai'r adeilad ar agor.**
**dd) Bod arwyddion yn cael eu gosod a'u harddangos yn glir mewn mannau cyhoeddus o'r adeilad i hysbysu bod system teledu cylch cyfyng yn weithredol.**
**e) Y dylid cadw recordiadau o ddigwyddiadau'n ddiogel i'w harchwilio gan yr heddlu.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 2.15pm